**Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd)**

## Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau'r safonau uchaf o ran didwylledd, uniondeb, ac atebolrwydd. Mae'n ymdrechu i gynnal ei busnes mewn modd cyfrifol gan dalu sylw priodol i ofynion y cyrff ariannu a'r safonau ar gyfer bywyd cyhoeddus a amlygwyd yn Egwyddorion Nolan, sef: anhunoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) yn rhoi amddiffyniad cyfreithlon i gyflogeion a gweithwyr sy'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gamymddygiad yn y gweithle, p'un ai cyflogeion/gweithwyr eraill neu'r cyflogwr sy'n ei gyflawni, pan fydd y pryderon hyn yn ddifrifol ac yn debygol o fod yn berthnasol i'r cyhoedd mewn ffordd ehangach.

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gyflogeion, myfyrwyr, aelodau lleyg, contractwyr, ymgynghorwyr, swyddogion, interniaid a gweithwyr achlysurol ac asiantaeth.

1.2 Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith llywodraethiant a chydymffurfio mewnol y Brifysgol. Os yw unigolyn yn gyflogai, nid yw'r polisi hwn yn rhan o'i gontract cyflogaeth.

1.3 Bwriedir i'r polisi hwn fod yn gymwys i bryderon am gamymarfer sydd er lles y cyhoedd ehangach.

1.4 Ni fwriedir i'r polisi hwn gael ei ddefnyddio yn lle polisïau a gweithdrefnau eraill y Brifysgol a dylid ymdrin â'r canlynol yn y ffordd arferol:

1.4.1 Dylid adrodd am honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil gan ddefnyddio Polisi'r Brifysgol ar Ymdrin â Honiadau o Gamymddygiad mewn Ymchwil.

1.4.2 Dylid codi materion sy'n ymwneud â chwyn unigolyn ynghylch ei gyflogaeth neu'r ffordd mae eraill yn ymddwyn tuag ato, gan gynnwys unrhyw achwyn neu gŵyn bersonol sydd ganddo, drwy Ordinhad Cwynion Staff y Brifysgol (tudalen 66) neu o dan y Polisi Urddas yn y Gweithle ac Wrth Astudio fel y bo'n briodol.

1.4.3 Dylid adrodd am honiadau o dwyll neu afreoleidd-dra ariannol gan ddefnyddio Polisi Gwrth-dwyll y Brifysgol.

1.4.4. Yn achos myfyrwyr, dylid codi pryderon heblaw am y rhai hynny sydd wedi'u cwmpasu gan y categorïau uchod, drwy'r weithdrefn cwynion arferol.

1.4.5 Materion sy'n ymwneud â gweithleoedd heblaw am Brifysgol Abertawe, er enghraifft, ysbytai, busnesau neu leoedd eraill lle gall myfyrwyr neu staff fod ar leoliad/secondiad. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol, y Gyfadran, yr Ysgol neu'r Adran yn sicrhau bod myfyrwyr a staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban sydd ar waith yn y gweithleoedd eraill ac, os oes angen, byddant yn darparu'r cymorth priodol i'r rhai hynny sydd am ddilyn gweithdrefnau chwythu'r chwiban sefydliadau eraill.

1.5 Ni ddylai aelodau lleyg o'r Cyngor weld y weithdrefn hon fel ffordd o herio neu gwestiynu penderfyniadau busnes neu ariannol a wneir gan y Brifysgol; ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gynt o dan weithdrefnau eraill y Brifysgol; neu fel ffordd o ymdrin â chamymarfer/camymddygiad staff neu fyfyrwyr.

1.6 Ni ddylai pryderon yr ymdriniwyd â nhw o dan weithdrefnau mewnol eraill, lle gwnaed penderfyniadau a dihysbyddwyd prosesau apelio, gael eu codi eto o dan y polisi hwn.

## 2. Diffiniad Chwythu'r Chwiban

Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi datblygu Canllaw i Gyflogwyr a Chôd Ymarfer ar Chwythu'r Chwiban.

2.1 Nod y Brifysgol yw cynnal y safonau uniondeb uchaf posib ym mhopeth a wnaiff. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, bydd ymddygiad sy'n beryglus, yn anghyfreithlon neu sy'n groes i godau moesol neu broffesiynol yn effeithio ar bob sefydliad. Os bydd gan unigolion bryderon o'r fath, mae'r Brifysgol yn eu hannog i adrodd am eu pryderon ar unwaith - gelwir hyn yn 'chwythu'r chwiban' (wedi'i adnabod yn ffurfiol fel datgelu er lles y cyhoedd). Gall unigolion fod yn dawel eu meddwl y bydd y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'w pryderon, y bydd yn ymchwilio'n drylwyr i'r pryderon a gall yr unigolyn fod yn hyderus na fydd unrhyw ddial yn ei erbyn. Gellir gweld manylion ynghylch diogelu chwythwyr chwiban yn adran 5 isod.

2.2 Gall y mathau o bryderon y gall unigolyn eu codi gyda'r Brifysgol drwy chwythu'r chwiban gynnwys:

- unrhyw weithgarwch a allai fod yn droseddol;
- unrhyw weithgarwch a allai fod yn dwyllodrus;
- unrhyw weithgarwch a allai beri risg i iechyd a diogelwch;
- unrhyw weithgarwch a allai niweidio'r amgylchedd;
- unrhyw weithgarwch a allai fod yn gamymddygiad ac anghywirdeb ariannol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i

- afreoleidd-dra ariannol, llygredd, llwgrwobrwyo a/neu anonestrwydd);
- unrhyw weithgarwch a allai gael ei gynnwys yn rhan o'r Ddeddf Cyllid Troseddol;
- unrhyw weithgarwch a allai fod yn gamweinyddiad cyfiawnder;
- unrhyw fethiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddio;
- unrhyw fethiant i gydymffurfio â Siarter neu Statudau neu Ordinhadau, a/neu Reoliadau'r Brifysgol;
- unrhyw ymddygiadau anfoesegol;
- unrhyw fethiant i fodloni gofynion proffesiynol;
- unrhyw gais i guddio un neu fwy o'r gweithgareddau hyn: a/neu
- unrhyw weithgarwch a allai arwain at aflonyddu rhywiol.

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr, ac anogir unigolion i ddefnyddio'r polisi hwn ar adegau pan gredant eu bod wedi darganfod camymarfer neu amhriodoldeb.

2.3 Os nad yw unigolyn yn sicr a yw'r polisi hwn yn berthnasol i rywbeth mae'n dod yn ymwybodol ohono, dylai siarad â'i reolwr llinell, ei diwtor neu ag un o Gynghorwyr Chwythu'r Chwiban y Brifysgol. Os yw un arall o bolisïau'r Brifysgol yn ymdrin â'r pryder, rhoddir arweiniad ar y camau nesaf i'w cymryd.

2.4 Gellir gwneud datgeliad o dan y polisi hwn gan unigolyn neu ar y cyd ag eraill.

**3. Y Weithdrefn ar gyfer Codi Pryder Chwythu'r Chwiban**

3.1 Mewn achosion lle mae unigolyn yn bwriadu datgelu dan y polisi hwn, dylid datgelu i'r Brifysgol yn yr achos cyntaf. Fel y'i nodwyd yn 2.3 uchod, os oes angen cymorth neu gyngor mewn perthynas â mynegi pryder, gall rheolwyr llinell, tiwtoriaid, neu Gynghorwyr Chwythu'r Chwiban y Brifysgol helpu yn y lle cyntaf.

3.2 Dylid cyflwyno datgeliadau chwythu'r chwiban i'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu fel Prif Swyddog yn unol â'r polisi hwn. Fodd bynnag, os yw'r pryder yn ymwneud ag ymddygiad yr Is-ganghellor neu'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, dylid cyflwyno'r datgeliad i Gadeirydd y Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg a fydd yn gweithredu fel Prif Swyddog ar gyfer y polisi hwn. Mae manylion y Cadeirydd presennol ar gael yma.

3.3 Dylid cyflwyno'r datgeliad yn ysgrifenedig a dylai nodi'n glir fod y pryder yn cael ei godi o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban hwn. Dylid datgelu'r holl ffeithiau allweddol, gan gynnwys y cefndir a'r rheswm sy'n sail i'r pryder, a gafodd y pryder ei fynegi eisoes i rywun arall ac, os felly, ymateb yr unigolyn hwnnw, unrhyw ddyddiadau perthnasol ac enwau'r bobl dan sylw. Wrth gael datgeliad ysgrifenedig, bydd y Prif Swyddog yn cydnabod hynny o fewn pum niwrnod gwaith fel arfer.

3.4 Gellir gwahodd y chwythwr chwiban i gyfarfod i drafod ei bryderon. Os felly, mae ganddo hawl i ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd o undeb llafur i'r cyfarfod hwn

ac unrhyw gyfarfodydd dilynol. Os bydd cydweithiwr neu gynrychiolydd o undeb llafur yn bresennol, mae'n rhaid i'r holl bartïon gytuno i gadw datgeliadau'n gyfrinachol cyn y cyfarfod, ar ei ôl ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a all ddilyn.

3.5 Ar ôl y cyfarfod cychwynnol, gall fod angen cynnal cyfarfodydd ychwanegol, a allai gynnwys arbenigwyr sydd â gwybodaeth benodol neu brofiad o'r materion a godwyd.

3.6 Bydd y Prif Swyddog dynodedig yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd iddo/iddi, ac yn penderfynu pa fath o ymchwiliad y dylid ei gynnal. Yr opsiynau sydd ar gael yw: a) ymchwilio i'r mater yn fewnol neu benodi Ymchwilydd Annibynnol; b) cyfeirio'r mater at sylw'r heddlu; neu c) galw am ymchwiliad allanol annibynnol.

3.6.1 Os penderfynir y dylid cynnal ymchwiliadau drwy fwy nag un o'r dulliau hyn, dylai'r Prif Swyddog ei fodloni ei hun y gellir cyfiawnhau'r trywydd hwn.

3.6.2 Os penderfynir cynnal ymchwiliad mewnol i'r mater, bydd y Prif Swyddog yn ystyried sut i benderfynu a oes achos prima facie i'w ateb. Bydd yr ystyriaeth hon yn cynnwys penderfynu ar y canlynol a rhoi trefniadau ffurfiol ar waith:

a) pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad (Ymchwilydd Annibynnol);

b) cylch gorchwyl yr Ymchwilydd Annibynnol, gan gynnwys y gallu i wneud argymhellion i'r Brifysgol ynghylch y camau gweithredu i'w cymryd;

c) y weithdrefn i'w dilyn;

ch) cwmpas yr ymchwiliad a'r adroddiad casgliadau dilynol;

d) y llwybr llywodraethiant priodol ar gyfer cau'r ymchwiliad.

Os bydd ymddygiad yr Is-ganghellor neu'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu neu unrhyw aelod arall o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn destun y datgeliad chwythu'r chwiban, gall y Prif Swyddog benderfynu penodi tîm annibynnol i gefnogi'r Ymchwilydd Annibynnol er mwyn sicrhau annibyniaeth lwyr.

3.6.3 Y Prif Swyddog fydd yn penderfynu ar yr Ymchwilydd Annibynnol i'w benodi. Gellir penodi Ymchwilydd Annibynnol o'r tu mewn i'r Brifysgol, hynny yw rhywun y tybir bod ganddo wybodaeth ac arbenigedd perthnasol ynghylch y materion a godwyd, neu unigolyn priodol o'r tu allan i'r Brifysgol. Bydd yr Ymchwilydd Annibynnol yn cynnal yr ymchwiliad a bydd yn hysbysu'r Prif Swyddog am ei ganfyddiadau.

3.6.4 Bydd y Prif Swyddog, neu Gadeirydd Pwyllgor priodol y Cyngor, os yw hynny'n briodol, yn gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniad yn dilyn yr ymchwiliad ac yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad yn llawn.

3.6.5 Gall fod yn briodol cynnal adolygiadau pellach ar ôl yr ymchwiliad cychwynnol, i gyrraedd casgliad cyffredinol. Dylai'r Prif Swyddog neu Gadeirydd Pwyllgor priodol y Cyngor bennu cwmpas unrhyw adolygiad estynedig, ei ffurfioli a chytuno arno, drwy'r llwybr llywodraethiant priodol.

3.6.6 O ganlyniad i'r ymchwiliad, gall y Prif Swyddog gychwyn gweithdrefnau mewnol eraill. Gellir hefyd gyfeirio at yr Heddlu neu gyrff allanol eraill ar y cam hwn.

3.6.7 Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cyfeirio'r mater at awdurdod allanol hefyd i ymchwilio ymhellach iddo, e.e. Medr, neu'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

3.7 Mae'n debygol y cyfwelir ag unigolion eraill fel rhan o'r ymchwiliad, gan gynnwys, ymhlith eraill, unrhyw unigolion y gwnaed y datgeliad yn eu herbyn. Bydd unrhyw unigolyn sy'n cael ei wahodd i gyfweliad fel rhan o'r broses hon yn cael yr un lefel o gymorth. Hefyd, bydd ganddo hawl i ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd o undeb llafur i'r cyfweliad a/neu i gysylltu ag unrhyw unigolyn â hyfforddiant priodol yn unol â'r polisi hwn. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n rhan o'r ymchwiliad, gan gynnwys yr holl rai hynny y cyfwelir â nhw ac unrhyw gydweithwyr neu gynrychiolwyr undebau llafur sy'n bresennol, gytuno i gadw datgeliadau'n gyfrinachol, cyn y cyfarfod ac ar ei ôl, ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a all ddilyn.

3.8 Cedwir cofnodion ffurfiol o gyfweliadau fel tystiolaeth o lynu wrth y drefn briodol ac i sicrhau llwybr archwiliad cyflawn a thryloyw.

3.9 Bydd y chwythwr chwiban yn cael gwybod am hynt yr ymchwiliad ac am faint o amser y mae'n debygol o bara. Ar adegau, fodd bynnag, mae'n bosib na fydd y Prif Swyddog yn gallu rhannu manylion am yr ymchwiliad (neu unrhyw gamau gweithredu a gymerir yn ei sgîl) oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol ddiogelu cyfrinachedd a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Yn ogystal, os yw'r pryderon a godwyd yn arbennig o gymhleth, efallai na fydd modd i'r Prif Swyddog fanylu ar amserlen yr ymchwiliad. Serch hynny, bydd y Prif Swyddog yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phob parti fel y tybir ei bod hi'n briodol, gan ystyried amgylchiadau'r ymchwiliad.

3.10. Er y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i bryderon, gan eu trin yn deg ac ymchwilio’n drylwyr iddynt, gall y canlyniad fod yn wahanol i ddisgwyliadau. Os nad yw'r chwythwr chwiban yn fodlon ar y ffordd mae'r Brifysgol wedi cynnal yr ymchwiliad a/neu sut mae'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, fel Prif Swyddog, wedi ymdrin â'r mater, gall gyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg i'w ystyried ymhellach. Fodd bynnag, os ymdriniwyd â'r pryderon gwreiddiol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg fel Prif Swyddog, gellir cyfeirio'r mater at sylw Cadeirydd y Cyngor i'w ystyried ymhellach. Os nad yw'r chwythwr chwiban yn fodlon, mae ganddo hawl hefyd i gyfeirio ei bryderon at sylw un o'r cyrff perthnasol y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt 3.6.7.

3.11 Ni fydd unigolyn dan anfantais am wneud datgeliad chwythu'r chwiban sydd o fewn cwmpas 2.2. uchod ac mae'r Brifysgol yn annog unigolion i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt. Hyd yn oed os canfyddir bod y datgeliad yn anghywir, ni fydd unrhyw anfantais i'r unigolion sy'n gwneud y datgeliad, ar yr amod ei fod yn credu'n rhesymol yn yr hyn roedd yn ei ddweud wrth fynegi'r pryderon a'i fod yn credu'n rhesymol ei fod yn gweithredu er lles y cyhoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddiogelu chwythwyr chwiban yn adran 5.

## 4. Cyfrinachedd ac Anhysbysrwydd

4.1 Mae gwahaniaeth pwysig rhwng dymuno cadw pryderon yn gyfrinachol a gwneud datgeliad yn ddienw. Rydym yn argymell na ddylid chwythu'r chwiban yn ddienw, am y rheswm y gall datgeliad dienw olygu ei bod hi'n fwy anodd i'r chwythwr chwiban elwa o'r amddiffyniad sydd ar gael i chwythwyr chwiban. Serch hynny, gall y Brifysgol ddefnyddio ei disgresiwn mewn amgylchiadau eithriadol.

4.1.1 Wrth arfer y disgresiwn hwn, bydd y ffactorau i'w hystyried yn cynnwys y canlynol: pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd; hygrededd y pryderon; a'r tebygolrwydd y bydd modd cadarnhau'r honiad o ffynonellau hysbys.

4.1.2 Mae'n anodd iawn - ac weithiau'n amhosib - ymchwilio i bryderon sy'n cael eu codi'n ddienw. Ni all y Brifysgol ganfod a yw'r honiadau'n gredadwy heb allu gofyn am fanylion pellach neu am eglurhad, ac mae'n anodd iawn gwneud penderfyniad gwybodus o ganlyniad.

4.2 Anogir chwythwyr chwiban i godi pryderon yn agored gan fod yn hyderus y bydd y Brifysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau na fydd neb yn gwybod pwy sydd wedi chwythu'r chwiban. Mae'n bosib y bydd angen i'r Ymchwilydd Annibynnol ddatgelu hunaniaeth y chwythwr chwiban i unigolion eraill sy'n rhan o'r ymchwiliad, ond bydd yn gofyn am ganiatâd cyn ei datgelu.

4.3 Bydd y Brifysgol yn trin pob datgeliad priodol a wneir yn unol â'r polisi hwn, mewn modd cyfrinachol a sensitif, a bydd yn ymdrechu i gadw hunaniaeth y person a gododd y pryder yn gyfrinachol. Fodd bynnag, rhaid deall y gallai'r broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth, a'i bod yn bosibl y bydd angen datganiad ffurfiol gan yr unigolyn fel rhan o'r broses ymchwilio.

## 5. Amddiffyniad i Chwythwyr Chwiban

5.1 Bydd y Brifysgol yn cefnogi unigolion sy'n codi pryder yn unol â'r polisi hwn, hyd yn oed os bydd yr ymchwiliad yn canfod bod y pryder wedi'i godi o ganlyniad i gamgymeriad diffuant ac nad oes unrhyw bolisi na rhwymedigaeth wedi'i dorri. Fodd bynnag, os teimlir bod unigolion wedi cael triniaeth anffafriol o ganlyniad i godi pryder, dylid rhoi gwybod i'r Prif Swyddog ar unwaith.

5.2 Gall erledigaeth neu drin cyflogai, myfyriwr neu aelod arall o'r Brifysgol yn annheg, oherwydd eu bod wedi codi pryder neu weithredu mewn modd cefnogol dan y polisi hwn, gael ei ystyried yn drosedd disgyblu difrifol dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol.

5.3 Mae hawl gan bob chwythwr chwiban i'r un amddiffyniad, felly ni ddylai unigolion fygwth eraill sydd wedi codi pryderon na gwneud unrhyw beth i ddial yn eu herbyn. Bydd unrhyw unigolyn o fewn cwmpas y polisi hwn sy'n ceisio atal unigolyn rhag codi pryder o dan y polisi hwn yn wynebu camau disgyblu a allai gynnwys diswyddo am gamymddygiad difrifol. Gall unigolion sy'n gwneud hyn wynebu camau cyfreithiol hefyd gan y chwythwr chwiban yn yr amgylchiadau hyn.

5.4 . Mae hawl gan bob chwythwr chwiban i'r un amddiffyniad, felly ni ddylai unigolion fygwth eraill sydd wedi codi pryderon na gwneud unrhyw beth i ddial yn eu herbyn. Bydd unrhyw unigolyn o fewn cwmpas y polisi hwn sy'n ceisio atal unigolyn rhag codi pryder o dan y polisi hwn yn wynebu camau disgyblu a allai gynnwys diswyddo am gamymddygiad difrifol. Gall unigolion sy'n gwneud hyn wynebu camau cyfreithiol hefyd gan y chwythwr chwiban yn yr amgylchiadau hyn Sylwer, fodd bynnag, ni chaiff datgeliad a wneir am resymau maleisus neu gan wybod bod yr honiad yn anwir ei oddef, a gallai hyn arwain at gamau disgyblu. Mae datgeliadau o'r fath yn tanseilio holl gredo'r polisi chwythu'r chwiban.

## 6. Adrodd am bryderon y tu allan i'r Brifysgol

6.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses llywodraethiant ar gyfer codi pryderon sy'n ymwneud â chamymddygiad neu gamymarfer yn y Brifysgol,  ymchwilio iddynt a'u datrys. Yn anaml y bydd angen i rywun o'r tu allan i'r Brifysgol ymwneud â'r mater pan wneir datgeliad chwythu'r chwiban.

6.2 Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen rhoi gwybod i gorff allanol, corff proffesiynol neu reoleiddiwr.

6.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithrediadau trydydd partïon megis cyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chleientiaid, yn ogystal â staff, myfyrwyr ac aelodau lleyg y Brifysgol. Os oes gan unigolion bryderon ynghylch trydydd parti, cânt eu hannog i godi pryderon yn fewnol yn y lle cyntaf. Bydd rheolwyr llinell, tiwtoriaid neu un o Gynghorwyr Chwythu'r Chwiban y Brifysgol yn gallu esbonio sut i wneud hyn.

6.4 Nid yw hysbysu'r cyfryngau neu drydydd parti nad oes ganddo gysylltiad â'r mater - yn enwedig cyn neu yn ystod ymchwiliad mewnol - bron byth wedi'i gyfiawnhau nac yn briodol mewn unrhyw sefyllfa. Anogir unigolion yn gryf i beidio â gwneud hyn a gellir ystyried cysylltu â'r cyfryngau yn fater disgyblu sy'n cyfiawnhau diswyddo, heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol. Y disgwyliad arferol yw y byddai pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ymdrin â'r mater yn fewnol, neu gyda rheoleiddiwr allanol, ac y byddai cyngor cyfreithiol annibynnol llawn wedi'i gymryd

cyn bod cyfiawnhad dros gysylltu â'r cyfryngau neu unrhyw drydydd parti nad oes ganddo gysylltiad â'r mater. Dylid sylwi hefyd y gallai hysbysu'r cyfryngau neu drydydd parti nad oes ganddo gysylltiad â'r mater effeithio ar hawliau ac amddiffyniad yr unigolyn o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (diwygiwyd 2013).

6.5 Mewn perthynas â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol a grybwyllwyd yn 6.2 uchod, bydd hyn yn dibynnu ar natur y pryder. Fodd bynnag, gallai'r rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Comisiwn Elusennau;
- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (Medr);
- Y Swyddfa Gartref;
- Awdurdod Rheoleiddio'r Heddlu perthnasol;
- Y Cyngor Ymchwil perthnasol;
- Cyrff Cyllido Allanol.

6.6. Yn unol â 2.3 a 2.4 uchod, os nad yw unigolyn yn siŵr a yw'r polisi hwn yn gymwys i rywbeth mae wedi dod yn ymwybodol ohono, dylai siarad â'i reolwr llinell, ei diwtor neu un o Gynghorwyr Chwythu'r Chwiban y Brifysgol.

**7. Adrodd am ganlyniadau**

7.1 Bydd y Prif Swyddog yn cyflwyno adroddiad llawn am yr holl ddatgeliadau ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir yn eu sgîl i'r pwyllgor llywodraethu priodol, fel y'i diffiniwyd yng nghwmpas cytunedig yr ymchwiliad yn unol â 3.6.2 uchod. Bydd adroddiad llawn am y canlyniadau'n cael ei roi i Gadeirydd y Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg, ynghyd â mynediad anghyfyngedig at yr ymchwilydd os oes angen. Bydd crynodeb o'r adroddiad yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd y Polisi, oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwiliad, Sicrwydd a Risg yn penderfynu ei bod hi'n briodol rhannu'r adroddiad llawn â'r Pwyllgor.

Yn amodol ar ddiogelu cyfrinachedd a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, bydd y Prif Swyddog yn darparu adborth i'r chwythwr chwiban pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, gan esbonio a oes camau gweithredu wedi'u cymryd er mwyn i'r unigolyn ddeall sut yr ymdriniwyd â'i ddatgeliad.